Cyngor Sir CEREDIGION | CEREDIGION County Council

# Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion

# Adroddiad Sgrinio Terfynol

# Crynodeb

## Ebrill 2013

**Bryan Thomas, MCIEH, FRSH**

Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Ffôn 01545 570881  Ffacs: 01545 572117

Director of Environmental Services and Housing,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Tel: 01545 570881  Fax: 01545 572117

1.1 Yn unol â Deddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Rhan o'r broses honno yw gwneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer y Cynllun er mwyn gofalu bod safleoedd cadwraeth natur rhyngwladol yn cael eu diogelu ac na fydd y Cynllun yn cael unrhyw effeithiau niwediol arnynt.

1.2 Mae Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o gynlluniau datblygu gofodol yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (1992/43/EEC) yn unol â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010) fel y'i diwygiwyd.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o ganlyniadau 'Adroddiad Sgrinio' y Cynllun Datblygu Lleol (Cyngor Sir Ceredigion, 2013b). Mae'r Adroddiad Sgrinio hwnnw yn cynnwys camau cyntaf y broses ARhC, sef;

a. nodi pa ardaloedd sydd wedi eu gwarchod;
b. casglu data;
c. asesu pa effaith y gall polisïau a dynodiadau'r Cynllun Datblygu Lleol eu cael ar yr ardaloedd a warchodir, a;
d. nodi unrhyw amcanion sydd ar hyn o bryd yn bodoli mewn cynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill, a rhoi manylion am unrhyw brosiectau eraill a allai, mewn cyfuniad â'r Cynllun Datblygu Lleol, fod yn debygol o gael effaith negyddol o bwys ar unrhyw safle cadwraeth natur rhyngwladol.

1.4 Yn ystod y broses, rhestrwyd 20 Safle Rhyngwladol y gallai Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion gael effaith bosibl arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys 12 Ardal Gadwraeth Arbennig, 2 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, a dau safle Ramsar. Roedd 16 o'r safleoedd yn llwyr neu'n rhannol o fewn Ceredigion. Rhestrir pob un ohonynt yn Nhabl 1.

1.5 Yna, fe aseswyd y Cynllun Datblygu Lleol (Cyngor Sir Ceredigon, 2013a) o ran y Safleoedd Rhyngwladol hyn, o'i ran ei hun ac mewn cyfuniad â pholisïau eraill. Aseswyd pob elfen o'r cynllun o ran ei effeithiau posibl, trwy wneud dadansoddiad trylwyr yn unol â'r canllawiau arfer dda a gyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2009 ac a ddiwygiwyd yn 2010 (Tyldesley, 2010), ac yn unol ag Atodiad y TAN a gyhoeddwyd yn 2009 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009). Fe nodwyd sawl effaith o bwys i'r safleoedd hyn, ac maent yn cael eu rhestru yn Nhabl 1.

1.6 Rhoddwyd ystyriaeth i fesurau lliniaru gan gynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu i'r rheiny'n unig)

- Polisïau sy'n lleihau neu'n dileu'r effeithiau, megis DM12: Seilwaith Cyfleustodau, sy'n atal datblygiadau os oes unrhyw broblemau capasti yn y seilwaith neu'r cyrff dwr sy'n cael eu heffeithio; oni bai fod modd datrys y problemau hynny neu weithredu mesurau interim derbyniol;

- Strategaeth gynaliadwy, gyda datblygiadau'n canolbwyntio ar leihau'r angen i deithio;
- Mesurau gwrthbwyso, megis y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; a
- Rhybudd o'r Angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer unrhyw bolisïau na ellid darogan beth fyddai eu canlyniadau ac na ellid eu lliniaru mewn unrhyw ffordd arall;

1.7 Ni fydd cynigion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn cael unrhyw effaith neu fawr ddim effaith negyddol, ynddo ei hun nac mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, ar y Safleoedd Rhyngwladol a nodir. Ceir crynodeb o hyn yn Nhabl 1:

**Tabl 1:** Crynodeb o Asesiadau Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd ar safleoedd Rhyngwladol

| Safle Rhyngwladol | Materion allweddol, ynddynt eu hunain neu mewn cyfuniad | Effaith ei hunan | Effaith mewn cyfuniad | A wnaed Asesiad priodol? |
|---|---|---|---|---|
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Teifi | • Colli cynefinoedd<br>• Water availability<br>• Water quality<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodiad Atmosfferig<br>• Eraill: Effeithiau ar brosesau naturiol<br>• Eraill: Lledaenu neu gyflwyno rhywogaethau estron ymledol | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion | • Colli cynefinoedd<br>• Argaeledd dŵr<br>• Ansawdd dŵr<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodiad Atmosfferig<br>• Eraill: Lledaenu neu gyflwyno rhywogaethau estron ymledol | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coed Cwm Einion | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Aflonyddu ac erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth | • Colli cynefinoedd | X | X | Naddo |

| Safle Rhyngwladol | Materion allweddol, ynddynt eu hunain neu mewn cyfuniad | Effaith ei hunan | Effaith mewn cyfuniad | A wnaed Asesiad priodol? |
|---|---|---|---|---|
| Arbennig (ACA) Coedydd a Cheunant Rheidol | • Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Aflonyddu ac erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | | | |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a RAMSAR Cors Caron | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar hydroleg<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Aflonyddu ac erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Cors Fochno, Ardal Gwarchdaeth Arbennig (AGA) a RAMSAR Cors Fochno a Dyfi | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar hydroleg<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Cwm Doethie - Mynydd Mallaen | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar hydroleg<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Gwarchdaeth Arbennig (AGA) Aber Dyfi | • Colli cynefinoedd<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Elenydd | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar hydroleg<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Gwarchdaeth Arbennig (AGA) Elenydd – Mallaen | • Colli cynefinoedd<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar y micro- | X | X | Naddo |

| Safle Rhyngwladol | Materion allweddol, ynddynt eu hunain neu mewn cyfuniad | Effaith ei hunan | Effaith mewn cyfuniad | A wnaed Asesiad priodol? |
|---|---|---|---|---|
| Grogwynion | hinsawdd<br>• Erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | | | |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau | • Colli cynefinoedd<br>• Argaeledd dŵr<br>• Ansawdd dŵr<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodiad Atmosfferig<br>• Eraill: Lledaenu neu gyflwyno rhywogaethau estron ymledol | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Rhos Llawr Cwrt | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar hydroleg<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Rhos Talglas | • Colli cynefinoedd<br>• Effaith ar hydroleg<br>• Effaith ar y micro-hinsawdd<br>• Erydiad<br>• Gwaddodiad Atmosfferig | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Tywi | • Colli cynefinoedd<br>• Argaeledd dŵr<br>• Ansawdd dŵr<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodi Atmosfferig<br>• Eraill: Effeithiau ar brosesau naturiol<br>• Eraill: Lledaenu neu gyflwyno rhywogaethau estron ymledol | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwy | • Colli cynefinoedd<br>• Argaeledd dŵr<br>• Ansawdd dŵr<br>• Aflonyddu<br>• Gwaddodi Atmosfferig | X | X | Naddo |

| Safle Rhyngwladol | Materion allweddol, ynddynt eu hunain neu mewn cyfuniad | Effaith ei hunan | Effaith mewn cyfuniad | A wnaed Asesiad priodol? |
|---|---|---|---|---|
| | • Eraill: Effaith ar brosesau naturiol.<br>• Eraill: Lledaenu neu gyflwyno rhywogaethau estron ymledol | | | |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Gogledd Sir Benfro | • Colli cynefinoedd (dileu nodweddion sy'n bwysig i lwybrau ehedeg) | X | X | Naddo |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion SAC | • Colli cynefinoedd (dileu nodweddion sy'n bwysig i lwybrau ehedeg) | X | X | Naddo |

1.8 Y casgliad, gan hynny, yw nad oes angen gwneud Asesiad Amgylcheddol o effeithiau'r cynllun ar y safleoedd rhyngwladol, oherwydd eu hamcanion cadwraethol, yn unol â Rheoliad 102 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

1.9 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cadwraeth ar gyfer Adroddiad Sgrino terfynol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, ei Atodiadau cysylltiedig a'r Papur Cefndir Technegol ar gael trwy gysylltu â'r Tîm Polisi Cynllunio ar 01545 572123 neu ar wefan Cyngor Sir Ceredigion ar www.ceredigion.gov.uk.

# Cyfeiriadaeth

Cyngor Sir Ceredigion (2008) Y Strategaeth a Ffafrir: Dogfen Ymgynghorol

Cyngor Sir Ceredigion (2010a) Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022: Fersiwn Adneuo

Cyngor Sir Ceredigion (2010b) Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022: Adroddiad Sginio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyngor Sir Ceredigion (2010b) Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 -2022: Adroddiad Asesu Cynaliadwyedd

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010)

Tyldesley, D. (2010) Canllawiau Drafft ar gyfer Adudrdodau sy’n Gwneud Cynlluniau yng Nghymru: Asesiad o Gynlluniau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. A gynhyrchwyd ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.